O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 110 (Cy.27)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *29 Ionawr 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafford Llundain i'r De (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r drafford oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn**.**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 29 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r drafford" *("the length of the motorway")* yw'r darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y drafford wrth Gyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'r ffordd ymadael tua'r dwyrain yn gwyro o brif gerbytffordd y drafford hyd at bwynt lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn uno â phrif gerbytffordd y drafford.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar hyd y darn o'r draffordd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Ionawr 2011.

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(**1**) 1984 p27: amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.